Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Henblas
# Llangristiolus
# Bodorgan
# Ynys Môn
# LL62 5DN

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Henblas ym mhentref Llangristiolus ar gyrion Llangefni.  Caiff ei chynnal gan awdurdod lleol Ynys Môn.  Mae 82 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed a chânt eu haddysgu mewn pedwar dosbarth.

Tua 4% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol.  Tua 17% o'r disgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Daw tua 82% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2015.  Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009 ac mae llawer o'r athrawon yn newydd i'w swyddi ers hynny.  Bu cryn dipyn o ansefydlogrwydd yn staffio'r ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Henblas yn 2016-2017 yw £4,069.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £13,429 a'r lleiafswm yw £2,902.  Mae Ysgol Henblas yn y 32ain safle o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Anfoddhaol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu hamser yno
- medrau siarad a gwrando y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda
- medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda
- ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff cyson, a bwyta ac yfed yn iach, yn dda
- cydweithio pwrpasol rhwng yr holl staff yn sicrhau amgylchedd dysgu sy'n gefnogol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel
- bron pob disgybl yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- lefelau presenoldeb y disgyblion ar y cyfan yn dda
- y gymuned yn un gynhwysol

Fodd bynnag:

- nid yw safonau darllen Cymraeg na Saesneg mwyafrif o'r disgyblion ar frig yr ysgol wedi datblygu'n ddigon cadarn
- nid yw'r ddarpariaeth yn herio disgyblion yn ddigon bwriadus i'w galluogi i gyrraedd eu potensial
- nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon bwriadus i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd na medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cael eu gwireddu yn gyflawn
- nid oes cysondeb yn yr addysgu na'r defnydd o wybodaeth asesu ac olrhain cynnydd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nad yw arweinwyr wedi ymateb yn ddigon cyflym yn y gorffennol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith ddigon cadarnhaol ar safonau disgyblion
- nid yw'r staff, llywodraethwyr na disgyblion wedi eu cynnwys wrth lunio'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol ac nid yw'r pennaeth wedi ei rhannu'n llwyddiannus gyda nhw
- nid yw rôl strategol yr arweinyddiaeth yn ddigon cadarn ac effeithiol i wella'r safonau na'r ddarpariaeth
- nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel egwyddorion y Cyfnod Sylfaen na'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, wedi eu hystyried na'u cyflwyno'n llwyddiannus
- bod y llywodraethwyr yn orddibynnol ar y wybodaeth y maent yn ei derbyn wrth y

pennaeth ac nid ydynt yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon effeithiol
- nid yw’r ysgol yn meddu ar y ddawn i hunanwella heb gymorth swyddogion y consortiwm rhanbarthol a’r awdurdod lleol
- nid yw systemau gwella ansawdd yr ysgol yn ddigon effeithiol
- nid yw llawer o argymhellion yr arolygiad diwethaf wedi eu cyflawni’n llawn

Fodd bynnag:

- yn ddiweddar, mae gweithdrefnau priodol wedi cychwyn i geisio codi safonau dysgu ac addysgu, yn ogystal â datblygu rôl arweinwyr
- mae gweledigaeth y pennaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a datblygu eu hymwybyddiaeth o berthyn i’r gymdeithas leol
- mae hyfforddiant ac arweiniad allanol yn golygu bod ychydig o athrawon yn dechrau datblygu’n briodol yn eu rolau fel arweinwyr
- mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol ac wedi dechrau cymryd rhan yn y broses hunanarfarnu drwy graffu ar lyfrau a mynd ar daith ddysgu

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen y disgyblion ar frig yr ysgol

A2 Sicrhau bod y cynllunio yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion o bob gallu ddatblygu'r ystod lawn o fedrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod y ddau ddosbarth ar waelod yr ysgol yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gyson ac yn unol â’r arfer orau sy’n bodoli o fewn yr ysgol

A4 Sicrhau cysondeb yn yr addysgu, y weithdrefn olrhain cynnydd, a’r defnydd a wneir o wybodaeth asesu ar draws yr ysgol

A5 Cryfhau rôl strategol arweinwyr ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynnwys datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr o’u rôl a’u cyfrifoldeb

A6 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu gweithdrefnau hunanarfarnu a chynlluniau gwella’r ysgol yn effeithiol

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n agos i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol ac yn cyflawni'n briodol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn nodau'r gwersi pan fydd amser yn caniatáu. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud digon o gynnydd ac nid yw'r rhai mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar gydag oedolion. Maent yn mynegi eu hunain yn eglur ac yn barod iawn i rannu eu profiadau a thrafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn amlwg yn mwynhau darllen ac yn medru trafod testun yn briodol i'w hoed a gallu. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau priodol i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae'r mwyafrif yn talu sylw da i atalnodi er mwyn gwneud synnwyr o'r testun. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar frig y Cyfnod Sylfaen yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn daclus, er nad ydynt bob amser yn ffurfio llythrennau yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio atalnod llawn a phrif lythyren gyda pheth cysondeb. Gyda chymorth, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu at ddibenion gwahanol yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion yn ysgrifennu rysáit ar gyfer brechdan jam ac arbrawf gwyddonol i gadw lolis iâ yn oer am gyfnodau hwy.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hollol hyderus a chyda rhuglder gynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion ieuengaf y cyfnod yn gwneud cynnydd da yn eu darllen ac mae'r mwyafrif yn darllen yn glir a chyda mynegiant. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn synhwyrol ac yn enwi amrywiaeth eang o lyfrau gan eu hoff awduron. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion yn gwneud cystal cynnydd. Mae bron pob un yn darllen yn fecanyddol, ac maent yn gyndyn iawn i drafod cynnwys eu llyfrau yn y ddwy iaith. Mae bron pob un yn dod o hyd i wybodaeth o amryw ffynhonnell ond nid ydynt yn defnyddio eu uwch fedrau darllen yn effeithiol i ddod o hyd i negeseuon sydd ymhlyg mewn testun. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cymwys yn eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif yn sillafu'r geiriau sydd o fewn eu profiad yn gywir ac maent yn dechrau dewis geiriau ac ymadroddion i greu effeithiau. Mae llawer yn defnyddio ffurf a geirfa briodol wrth ysgrifennu i wahanol gynulleidfaoedd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn ysgrifennu llythyr i'r Cyngor Sir i gwyno am y drafnidiaeth y tu allan i'r ysgol a chreu erthygl papur newydd yn cyhoeddi genedigaeth Iesu Grist. Er hyn, ar draws cyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn ysgrifennu darnau digon ymestynnol a heriol.

Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau wrth ddefnyddio unedau safonol i lenwi poteli moddion yn y

filfeddygfa, er enghraifft. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb cynyddol. Mae mwyafrif y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i ba dymor mae plant yn cael eu penblwydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrywiaeth ddigonol o strategaethau wrth ddatrys problemau mathemategol yn eu pen ac yn ysgrifenedig. Mae llawer yn gwneud defnydd priodol o'u medrau trin data mewn gwersi dylunio a thechnoleg wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn canfod modd, canolrif ac ystod wrth gymharu pellter saethu taflegryn o gatapwlt. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir wrth drafod eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson nac i'r lefel ddisgwyliedig ar draws nifer o feysydd eraill y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar waelod y Cyfnod Sylfaen yn datblygu ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu defnyddio'n bwrpasol. Maent yn ddefnyddwyr hyderus o'r medrau hyn ar draws y meysydd dysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn creu graffiau i ddangos sawl mililitr o lolis rhew sydd wedi ymdoddi mewn pedwar safle gyda thymheredd gwahanol. Fodd bynnag, nid yw medrau TGCh disgyblion yng ngweddill yr ysgol yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon. Mae llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ymchwilio'n ddiogel ar y we ac yna'n cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf poster neu gyflwyniad yn dda. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent wedi ymchwilio i ddinasoedd yn Ewrop a'u stadiwm pêl-droed a chyflwyno'r wybodaeth ar ffurf cyflwyniad amlgyfrwng. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cynhyrchu na defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi gwybodaeth na dilyn llwybrau ymholi penodol ac nid oes gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi llithro o'r 25% uchaf i'r 50% is o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn y ddau faes dysgu. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau uwch na'r disgwyl wedi amrywio'n fawr yn y ddau faes dysgu.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros yr un cyfnod, yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig yn y Gymraeg a mathemateg wedi amrywio'n fawr rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Mewn Saesneg, mae perfformiad yn gyson naill ai yn yr 50% is neu'r 25% isaf tra bod perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gyson yn y 25% isaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad ar y lefelau uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio'n fawr rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf, ac mae'n gyson yn yr 50% is yn y Gymraeg.

Yn gyffredinol, tros bedair blynedd, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran y gyfran sy'n cyrraedd y deilliant disgwyliedig, deilliannau uwch na'r lefelau uwch. Fodd bynnag, yn gyffredinol tros yr un cyfnod mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth.

Gan fod cyn lleied o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol, nid yw'n ddibynadwy cymharu eu perfformiad gyda'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n hollol ddiogel yno. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd bwyta, yfed dŵr a chadw'n iach ac maent yn gallu esbonio effaith hyn ac ymarfer corff ar eu hiechyd yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff sy'n cyfrannu'n effeithiol at lefel eu ffitrwydd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau'r disgyblion i weithio'n annibynnol a bod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain. Nid yw'r disgyblion yn cyfrannu at ddewis yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn weithgar. Enghraifft dda o'u gwaith yw'r ffordd y maent yn trefnu wythnos 'Cymru Cŵl' lle mae eu cyfoedion yn cael cyfle i ddathlu eu Cymreictod. Mae'r aelodau hefyd yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill sy'n llai ffodus. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol fel eisteddfodau a chyngherddau.

Mae canran presenoldeb yr ysgol ar y cyfan yn dda ac yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Nid oes un o'r disgyblion wedi eu gwahardd tros yr un cyfnod ac mae canran absenoldeb cyson yr ysgol yn isel iawn. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu yn seiliedig ar themâu sy'n ennyn diddordeb mwyafrif y disgyblion yn briodol. Yn gyffredinol, mae'r profiadau yng nghyfnod allweddol 2 yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol yn briodol. Fodd bynnag, anghyson iawn yw ansawdd y cynllunio ar gyfer cyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar draws y cyfnod hwn. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer hanner hŷn y Cyfnod Sylfaen yn cynnig y profiadau cyfoethog sy'n bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac nid oes cynlluniau hir dymor yn bodoli i sicrhau cyflawniad dros gyfnod penodol. Er bod cynlluniau pythefnosol yn eu lle ers ychydig dros fis, sy'n cynnwys profiadau addas ar gyfer y disgyblion, nid yw'r gweithgareddau dosbarth yn cyfateb i'r amcanion ysgrifenedig sydd wedi eu nodi yn y cynlluniau. O ganlyniad, nid yw trefniadaeth y dosbarth yn cynnig darpariaeth barhaus na darpariaeth sydd wedi'i chyfoethogi. Nid yw'r ddarpariaeth ychwaith yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac nid oes digon o ddefnydd o'r ardal allanol.

Araf iawn yw ymateb yr ysgol i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Nid yw'r ysgol wedi cychwyn mapio llythrennedd ar draws yr ysgol na'i gynnwys yn ei chynlluniau. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn dechrau gweithredu gofynion y Fframwaith Rhifedd yn bwrpasol ac mae effaith hyn i'w gweld yng ngwaith y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cynllunio bwriadus ar gyfer yr ystod o fedrau rhifedd ar y lefel gywir yng nghyfnod allweddol 2. Anghyson yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion ac, o ganlyniad, nid yw llawer o'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r ystod lawn o fedrau.

Gan nad yw'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr, nid yw'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu eu medrau yn ddigon systematig wrth iddynt symud ymlaen o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gyrraedd y lefelau uwch.

Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod medrau llafar disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Anwastad yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen y disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen ac ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae'r ddarpariaeth dda yn cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn yr ysgol yn ddigon trylwyr, ac o'r herwydd, nid yw'r disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau darllen ar frig yr ysgol. Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion yn briodol, ond prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu darnau digon ymestynnol a heriol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hanes, diwylliant a'u traddodiadau yn gadarn iawn. Mae'r gweithgareddau, fel ymweliadau i gynefinoedd adar gwyllt lleol ac astudiaethau o waith artistiaid a beirdd o Gymru, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd drwy waith y pwyllgor eco sy'n annog y disgyblion i arbed ynni a thyfu cynnyrch yng ngardd yr ysgol. Mae'r profiadau ar gyfer meithrin dealltwriaeth y disgyblion o fod yn ddinasyddion byd-eang yn datblygu'n addas. Enghraifft o hyn yw'r cyfle a gaiff disgyblion i astudio bywyd yn Affrica a gwaith yr elusen 'Water Aid'.

### Addysgu: Digonol

Mae pob athro yn rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod cydberthynas hyfryd yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos gofalgar sy'n bodoli ym mhob dosbarth ac mae hyn yn meithrin parch tuag at eraill yn effeithiol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn sicrhau bod cydweithio effeithiol yn digwydd rhyngddyn nhw a'r cymorthyddion ar lawr y dosbarth. Mae'r staff i gyd yn modelu'r iaith Gymraeg yn effeithiol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar yr holl ddisgyblion. Mae'r athrawon yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol mewn llawer o'r gwersi ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Fodd bynnag, mae safon yr addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol ac mae mwyafrif y staff yn gorarwain y disgyblion gan ddarparu gormod ar eu cyfer. O ganlyniad, nid oes pwyslais priodol rhwng tasgau a arweinir gan yr athro a rhai lle mae disgyblion

yn gallu gwneud eu dewisiadau. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith mewn ychydig o ddosbarthiadau, ynghyd â defnydd cyson o ganllawiau ysgrifennu mewn tua hanner y gwersi, yn golygu nad yw disgyblion mwy abl yn cael eu herio’n ddigonol. Pan nad yw’r addysgu ar ei orau, mae’r cyflwyniadau'n rhy hir, cyflymder y gwersi'n rhy araf ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau datblygu’n briodol drwy’r ysgol. Mae’r disgyblion yn chwarae rhan yn y broses trwy drafod a chytuno ar y meini prawf llwyddiant yn y gwersi. Mae’r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac yn canmol eu hymdrechion, er nad yw’r sylwadau bob amser yn nodi’n ddigon clir beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi datblygu systemau priodol ar gyfer olrhain cynnydd y disgyblion ac mae’r athrawon yn dechrau eu defnyddio’n addas. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar safonau a chynnydd y disgyblion. Mae’r rhieni yn derbyn gwybodaeth ddilys am gyflawniadau a lles eu plant ac mae’r adroddiadau blynyddol yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel. Trwy ei gweithdrefnau a’i pholisïau, mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a chymdeithasol ei disgyblion yn effeithiol. Mae’r sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu’r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus. Mae’r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd buddiol iddynt fyfyrio a chofio am eraill. Mae gan yr ysgol amrywiaeth lwyddiannus o gyfleoedd i gynyddu lefel ffitrwydd y disgyblion, sy’n cynnwys gweithgareddau corfforol a chlybiau chwaraeon. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw’n heini. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag amrywiaeth o asiantaethau allanol, sy’n hyrwyddo lles y disgyblion mwyaf bregus yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys y seicolegydd addysg, adran iechyd yr ysbyty lleol, yr heddlu a’r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn i’r cwricwlwm a holl weithgareddau’r ysgol ac mae’r staff yn adnabod eu hanghenion yn gynnar. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn, na’r modd y mae’r ysgol yn mesur eu cynnydd, yn ddigon trwyadl. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion sydd ag arnynt anghenion dysgu ychwanegol hyd yma wedi gwneud digon o gynnydd. Er hyn, mae’r staff bellach wedi dechrau cynnwys y rhieni a’r disgyblion yn y broses o osod targedau yn y cynlluniau addysg unigol, ond nid yw'r rhain wedi cael amser i wreiddio i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, gartrefol a chynhenid Gymreig ei naws. Un o gryfderau’r ysgol yw’r berthynas gynhaliol sy’n bodoli rhwng oedolion a disgyblion. O

ganlyniad, mae'r disgyblion bron i gyd yn ymddiried yn y staff ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i gymryd cyfrifoldeb am drin pobl eraill yn deg ac maent yn ymateb yn gadarnhaol iawn i hyn. Mae gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i bob disgybl yn gadarn. Mae hyn yn sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn ddeniadol a threfnus ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd o ansawdd dderbyniol. Ar y cyfan, mae gan yr ysgol gyflenwad buddiol o adnoddau ar gyfer darparu'r cwricwlwm. Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân ac mae'r safle'n hygyrch i bawb. Fodd bynnag, nid yw rhan uchaf y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd digon pwrpasol o'r ardal tu allan i gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Ar y cyfan, mae arweinwyr wedi ymateb llawer yn rhy araf yn y gorffennol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith ddigon cadarnhaol ar safonau disgyblion. Yn dilyn cefnogaeth ac arweiniad dwys gan swyddogion y consortiwm rhanbarthol a'r awdurdod lleol tros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae rheolaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol wedi gwella. Mae arweinwyr wedi cychwyn rhoi gweithdrefnau priodol ar waith yn ddiweddar i geisio codi safonau dysgu ac addysgu, yn ogystal â datblygu rôl arweinwyr. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o amser i wreiddio a chael effaith arwyddocaol hyd yma.

Mae gan y pennaeth weledigaeth eang sy'n seiliedig ar greu amgylchedd hapus, gofalgar, diogel a chynhwysol lle gall bob plentyn fodloni eu potensial yn llawn, datblygu hunanhyder, annibyniaeth, dwyieithrwydd, a'r ymdeimlad o fod yn perthyn i gymuned. Fodd bynnag, nid yw wedi cynnwys y staff na'r disgyblion wrth lunio'r weledigaeth ac nid yw wedi ei rhannu'n ddigon llwyddiannus i'w galluogi i wreiddio a chael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er bod y pwyslais ar les disgyblion a phwysigrwydd perthyn i'r gymdeithas yn nodweddion amlwg, nid yw'r agweddau o ran datblygu annibyniaeth na chyrraedd potensial wedi dod yn rhan mor greiddiol o'r ddarpariaeth.

Mae hyfforddiant ac arweiniad gan asiantaethau allanol yn golygu bod ychydig iawn o'r athrawon yn dechrau datblygu'n briodol yn eu rolau fel arweinwyr. O ganlyniad, maent yn cychwyn cyfrannu'n fwriadus mewn gweithgareddau arfarnu, monitro a gosod cyfeiriad i'r ysgol yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n ddigon cadarn eto.

Mae ethos o gydweithio pwrpasol yn datblygu ymysg yr arweinwyr presennol a gweddill y staff. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig o fywyd yr ysgol y mae angen eu gwella. Er enghraifft, gan nad yw'r arweinwyr yn monitro'r ddarpariaeth yn ddigon pwrpasol a chywir, na'n rhannu'r canfyddiadau yn ddigon clir, nid yw'r athrawon na'r llywodraethwyr yn ddigon ymwybodol o'r materion sydd angen gwella ar fyrder. Yn ogystal, nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion disgyblion o bob gallu.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigon buan na phwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol dros nifer o flynyddoedd. Er bod yr ysgol wedi ymateb yn gadarn yn ddiweddar iawn i ofynion rhifedd ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, nid hyn mor effeithiol yng nghyfnod allweddol 2. Yn yr un modd, araf iawn yw cynlluniau'r ysgol i hybu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ond maent wedi bod yn rhy araf i ddatblygu eu rolau a deall eu cyfrifoldebau'n llawn. Yn gymharol ddiweddar, mae ychydig wedi cychwyn cymryd rhan yn y broses hunanarfarnu trwy graffu ar lyfrau disgyblion ac mae'r cadeirydd wedi cymryd rhan mewn taith ddysgu gyffredinol i brofi naws yr ysgol. Serch hynny, maent yn orddibynnol ar y wybodaeth maent yn ei derbyn gan y pennaeth. Mae eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol yn rhy arwynebol i'w galluogi i ddal arweinwyr i gyfrif yn ddigon effeithiol am ei safonau, y ddarpariaeth na safon yr arweinyddiaeth. Cyfyng yw eu cyfraniad at lunio'r adroddiad hunanarfarnu a gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nid ydynt ychwaith wedi sicrhau bod llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi eu cyflawni'n llawn.

Mae arafwch o ran gweithredu yn llesteirio cynnydd o ran sicrhau safonau da, cysondeb yn y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol wedi bod yn effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, gyda chymorth dwys gan swyddogion y consortiwm rhanbarthol a'r awdurdod lleol, mae'r ysgol bellach wedi gosod ystod o weithdrefnau hunanarfarnu priodol yn eu lle. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith, arsylwi ar wersi a holi barn disgyblion a rhieni. Trwy hyn, mae'r pennaeth yn dechrau datblygu gwell ddealltwriaeth o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r pennaeth wedi rhannu cyfrifoldebau â'r arweinwyr ar bob lefel i'w galluogi i gyfrannu'n ddigon effeithiol mewn gweithgareddau arfarnu, monitro a gosod cyfeiriad i'r ysgol yn eu meysydd cyfrifoldeb. O ganlyniad, nid yw'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith ddigon cadarnhaol ar safonau na'r ddarpariaeth.

Er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn adnabod ychydig o feysydd cadarnhaol yng ngwaith yr ysgol, nid yw'r rhain bob amser yn gywir. Er bod yr ysgol yn nodi materion sydd angen sylw i'r dyfodol ar ddiwedd pob adran, nid yw'n adnabod yr holl faterion pwysig sydd angen eu datblygu ar fyrder. Er enghraifft, nid yw'n cyfeirio'n ddigon clir at yr anghysondeb mewn safonau darllen, y diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol na'r diffyg mewn arweinyddiaeth strategol.

Ar y cyfan, mae cyswllt priodol yn bodoli rhwng canfyddiadau'r ysgol o ran y materion sydd angen eu datblygu a blaenoriaethau'r cynllun gwella cyfredol. Er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn adnabod nifer o faterion eraill i'w gwella yn ogystal, maent wedi eu blaenoriaethu ac nid yw pob un yn ymddangos fel blaenoriaethau penodol.

Mae ansawdd y cynllun gwella presennol yn briodol ac yn cynnwys elfennau addas o ran atebolrwydd, ac mae'r targedau meintiol o gymorth i'r llywodraethwyr fedru dal yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu ei gallu i olrhain cynnydd ac adnabod effaith gweithredu blaenoriaethau'r cynlluniau gwella yn fwy systematig. Mae arweinwyr yn dechrau cloriannu effaith unrhyw weithredu ar safonau ac yn adnabod y camau gweithredu nesaf i sicrhau cynnydd pellach. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir o effaith unrhyw weithdrefnau blaenorol ar safonau, darpariaeth nac arweinyddiaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt eto yn cael digon o effaith ar safonau na'r ddarpariaeth.

Mae cysylltiadau buddiol yn bodoli gyda'r rhieni. O ganlyniad, maent yn gefnogol iawn i fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni trwy lythyrau rheolaidd a gwefan gymdeithasol. Mae'r gymdeithas rieni ac athrawon yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig trwy godi symiau sylweddol o arian yn flynyddol. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i brynu adnoddau ychwanegol fel llechi electronig a llyfrau darllen. Mae nifer o rieni yn rhoi yn gyson o'u hamser i redeg clybiau allgyrsiol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â'r gymuned trwy gyswllt agos â'r eglwys leol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y disgyblion yn cynnal gwasanaethau achlysurol yno, ac mae'r offeiriad yn ymwelydd cyson â'r ysgol. Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli gyda mudiad yr Urdd, sy'n cynnal ei gweithgareddau yn yr ysgol. Mae hyn yn ehangu profiadau disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu hannog i gystadlu mewn cystadlaethau yn lleol a chenedlaethol.

Mae'r cydweithio defnyddiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth gychwyn. Yn yr un modd, trwy'r trefniadau pontio effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol, mae'r disgyblion hŷn yn trosglwyddo'n esmwyth i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae hyn yn cyfrannu at ddechrau gwella dealltwriaeth yr athrawon o'r safonau sy'n ddisgwyliedig.

Mae'r ysgol wedi elwa'n fawr o'r bartneriaeth gynhaliol ddwys gan y consortiwm rhanbarthol a'r awdurdod lleol dros gyfnod penodol. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau, y ddarpariaeth na'r arweinyddiaeth.
Mae cydweithio buddiol gydag amrediad o asiantaethau allanol sy'n ffocysu ar iechyd, perthnasau a chwnsela yn golygu bod yr ysgol yn ymateb yn bwrpasol i anghenion amrywiol rhan fwyaf ei disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig i ddarparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb mwyafrif y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r cynorthwywyr dysgu yn briodol. O ganlyniad, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr

o fewn y dosbarthiadau.  Mae trefniadau ar gyfer darparu amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol.  Fodd bynnag, nid yw’r arweinwyr wedi monitro effaith y gwaith hwn yn ddigon trylwyr i ddarganfod ei effaith ar y ddarpariaeth, yn arbennig o safbwynt y cynllunio.  Mae prosesau rheoli perfformiad yn arwain yn briodol at gyfleoedd hyfforddi addas sy’n seiliedig ar flaenoriaethau gwella’r ysgol.  Er enghraifft, mae’r hyfforddiant diweddar ar ddatblygu rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion yn y maes hwn.

Mae amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol ac, ar y cyfan, cânt eu rheoli’n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o’r cwricwlwm.  Fodd bynnag, nid yw’r arweinwyr yn monitro’r defnydd o’r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen yn ddigon effeithiol.  O ganlyniad, nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu’n llawn.

Mae’r ysgol yn gweithio’n briodol o fewn rhwydweithiau dysgu.  Mae hyn yn dechrau cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu rheolaeth ganol yr ysgol, yn arbennig o ran datblygu cyfrifoldebau’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol.

Gwna arweinwyr ddefnydd priodol o’r ychydig arian o’r grant amddifadedd disgyblion i wella lles disgyblion bregus yn llwyddiannus.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd a gofalus.  O ystyried hyn a safonau a chyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602156 - Ysgol Henblas**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 101 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 11 | 8 | 15 | 14 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 86.7 | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 8 | 15 | 14 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 86.7 | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.3 | 50.0 | 60.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 8 | 15 | 14 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 86.7 | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 45.5 | 50.0 | 46.7 | 21.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 4 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 8 | 15 | 14 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 45.5 | 62.5 | 80.0 | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602156 - Ysgol Henblas**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 101 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 14 | 19 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 91.7 | 92.9 | 84.2 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 19 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 92.9 | 89.5 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 50.0 | 31.6 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 19 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 92.9 | 89.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 35.7 | 36.8 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 19 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 92.9 | 89.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 71.4 | 47.4 | 31.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 19 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 92.9 | 84.2 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 50.0 | 47.4 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 36 | 36<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 36 | 33<br>92%<br>92% | 3<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 36 | 36<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 36 | 32<br>89%<br>97% | 4<br>11%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 36 | 26<br>72%<br>96% | 10<br>28%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 36 | 36<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 36 | 36<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 36 | 35<br>97%<br>98% | 1<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 36 | 33<br>92%<br>90% | 3<br>8%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 36 | 26<br>72%<br>95% | 10<br>28%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 36 | 29<br>81%<br>77% | 7<br>19%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 36 | 31<br>86%<br>84% | 5<br>14%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 24 | 2 | 17 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 8% | 71% | 21% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 24 | 14 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 58% | 38% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 24 | 9 | 15 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 38% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 24 | 6 | 13 | 2 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 25% | 54% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 22 | 5 | 13 | 3 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 59% | 14% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 24 | 1 | 18 | 3 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 4% | 75% | 12% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 23 | 3 | 18 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 13% | 78% | 4% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 24 | 0 | 12 | 4 | 4 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 0% | 50% | 17% | 17% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 5 | 12 | 2 | 0 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 21% | 50% | 8% | 0% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 24 | 6 | 14 | 2 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 25% | 58% | 8% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 24 | 8 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 2 | 12 | 2 | 1 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 8% | 50% | 8% | 4% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 1<br>4% | 15<br>62% | 6<br>25% | 1<br>4% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 6<br>25% | 16<br>67% | 2<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 24 | 4<br>17% | 13<br>54% | 2<br>8% | 1<br>4% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 23 | 5<br>22% | 16<br>70% | 1<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 24 | 3<br>12% | 12<br>50% | 1<br>4% | 2<br>8% | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 24 | 5<br>21% | 15<br>62% | 3<br>12% | 1<br>4% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 24 | 2<br>8% | 14<br>58% | 4<br>17% | 2<br>8% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mr Paul Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Rhys Hearn (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.